

Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
ECAD4020C
2026-27



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Darlith 4:
Enwau

r.abbott@pcydd.ac.uk

Enw / Enwau (*noun/s*)

Beth ydy enw?

Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth
er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.



Parwch y term a'r ddiffiniad

1. enw priod

- enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyrfa, haid.

2. enw torfol

- enw person, lle neu iaith e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b. Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

3. enw diriaethol

- enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd e.e. hapusrwydd, cariad.

4. enw haniaethol

- enw ar rywbeth go iawn h.y. rhywbeth y gallwn ni ei weld / ei glywed, ei gyffwrdd, fel bwrdd, cadair.

Atebion

1. enw priod: enw person, peth, iaith neu le arbennig e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b. Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

2. enw torfol: enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyrfa, haid.

3. enw diriaethol: enw ar rywbeth go iawn h.y. rhywbeth y gallwn ni ei weld, ei glywed, ei gyffwrdd ag e e.e. bwrdd, cadair.

4. enw haniaethol: enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd / ei glywed e.e. hapusrwydd, cariad.

Dyfaluwch y gair!



Cofiwch!

- Dim dweud y gair ei hun!
- Dim dweud 'Mae'n dechrau gyda...'
- Dim meimio!
- Dim odli!

Faint o enwau haniaethol
sydd yn eich pecyn?



Cwis: Ble mae'r enw?



DEFNYDDIO ENWAU’N GYWIR:

Pwyntiau allweddol fel athrawon iaith

Cenedl enwau

Mae gan bob enw yn y Gymraeg genedl, hynny yw, mae naill ai'n fenywaidd neu'n wrywaidd.

Sut gallwn ni wybod a yw enw'n fenywaidd neu'n wrywaidd?



Cymraeg Saesneg



1af
2il
a
A
â
a cappella
à la carte
à la mode
a posteriori
a priori
a tempo
AAL
ab
ab initio
abaca
abacws
abacysau
abad
abadaeth
abadaethau



Gweiadur

Geiriadur Cymraeg-Saesneg / Saesneg-Cymraeg ar-lein yn cynnwys diffiniadau ac ynganiadau yn rhan o gasgliad o adnoddau aml-gyfrwng ar gyfer defnyddwyr y Gymraeg o bob oedran a gallu.

Y Geiriadur Cymraeg-Saesneg

Geiriadur craidd y prosiect. Mae'n seiliedig ar dros 40 mlynedd o waith geiriadurol ac yn cynnwys:

- **500,000** o eiriau Cymraeg (yn cynnwys ffurfiau treigledig a berfol)
- **50,000** o ddiffiniadau ac ymadroddion Cymraeg
- **berfau** wedi'u rhedeg ym mhob amser
- **ansoddeiriau** wedi'u cymharu
- **arddodiaid** wedi'u rhedeg
- **cyngor gramadegol** ar sut i ddefnyddio geiriau
- y **treigladau** sy'n cael eu sbarduno gan eiriau
- **ynganiad** sain
- geiriau **Saesneg** cyfatebol ar lefel ystyr
- **mynegai** Saesneg/Cymraeg

Wrth i'r prosiect ddatblygu, byddwn yn diweddarau'r geiriadur ac yn ychwanegu at ei gynnwys. Byddwn hefyd yn ychwanegu adnoddau arbenigol eraill at y [Gweiadur](#).

Teipiwch air yn y blwch chwilio i ddechrau defnyddio'r [Gweiadur](#)!



<https://www.gweiadur.com/geiriadur-cymraeg>

Cenedl enwau

munud  (hon *neu hwn*) **enw benywaidd neu wrywaidd** (munudau)

- 1 un o'r trigain (60) rhan sydd mewn awr **minute**¹
- 2 cyfnod byr o amser, *Fe fydda i gyda ti mewn munud.* **minute**¹
- 3 **MATHEMATEG** mesur ongl cywerth ag $1/60$ o radd, *Mae 60 munud [60'] mewn gradd.* **minute**¹

Sylwch: mae'n wrywaidd yn y Gogledd ac yn fenywaidd yn y De.

<https://www.gweiadur.com/geiriadur-cymraeg>

Ysgrifennwch
8 enw unigol
rydych chi'n
gallu eu gweld
mewn ystafell
ddosbarth.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddiwch eiriadur... enw gwrywaidd neu enw benywaidd?



llyfr¹

[bnth. Llad. *libr(um)*, cf. H. Grn. *liuer*, gl. *liber uel codex*, Crn. C. *lyvyr*, Crn. Diw. *levar*, H. Lyd. *librou* (ll.), Llyd. C. *lef(fr)*, Llyd. Diw. *levr*, *leor*, taf. Gwened *livr*, H. Wydd. *lebor*, Gwydd. Diw. *leabhar*; dichon mai i *llwfr* (*b*) neu i *llyfn* y perthyn yr engh. isod o *Mos 158 552b*]

eg. llyfr *llyfrau*.

casgliad o ddalennau (papur, memrwn, &c.) wedi eu cydrwymo o fewn cloriau neu gaeadau, cyfrol; gwaith ysgrifenedig neu brintiedig o unrhyw natur sydd yn ddigon o ran hyd i lanw un neu ragor o gyfrolau o'r fath (hefyd weithiau am waith llai); un o'r prif adrannau mewn cyfrol gyfansawdd (e.e. un o lyfrau'r Beibl neu'r Aeneid); casgliad rhwymedig o ddalennau o bapur ysgrifennu (ar gyfer cyfrifon busnes, cofnodion, ymarferion, &c.); hefyd yn *dros*.

Geiriadur
Prifysgol Cymru
GPC
A Dictionary of
the Welsh Language



eg = enw gwrywaidd

eb = enw benywaidd

Pam bod gwirio cenedl enw yn bwysig?

Mae'n dangos pryd dylen ni dreiglo e.e.

- Rydyn ni'n treiglo enw benywaidd yn feddal ar ôl 'y fannod' e.e. y **g**adair, y **f**erch, y **d**aflen, y **b**êl.



Dewch i ni edrych ar
enghreifftiau...

Y treigladd meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
								
?	?	?	?	?	?	?	?	?

Y treigladd meddal

p	t	c	b	d	g	ll	m	rh
								
b	d	g	f	dd	-	(l)	f	(r)

y + enw benywaidd unigol

Treigladd meddal ar ôl 'y' :

y **g**adair

y **b**rifathrawes

y **d**aith

y **w**ers

y **f**reuddwyd

OND: dim ll / rh

y llygoden

y rhaglen

y + enw gwrywaidd

DIM treigladd

y cwrs

y papur

y trê

y gliniadur

y llyfr

y drws

y + enw lluosog

DIM treigladd

y cadeiriau

y pensiliau

y teithiau

y gwersi

y rhaglenni

y taflenni

Cyfieithwch...



- the pupil
- the desk
- the trip
- the worksheet
- the course
- the desks
- the books


Cyfieithwch...



- the line
- the reason
- the toy
- the people
- the weekend
- the lesson plan
- the year

Cofiwch hefyd...

Mae'r **g**ath a'r **g**wingen yn cysgu dan **y** **g**ooden.



'the'

Llenwch y bylchau, gan dreiglo os bydd angen.

1. Mae'r _____ newydd yn dechrau yfory. (**mis**)
2. Yn y _____ nesaf, byddwn ni'n ymarfer sgiliau iaith. (**pythefnos**)
3. Mae'r _____ Nadolig yn dechrau am saith o'r gloch. (**cyngerdd**)
4. Mae angen gwella'r _____ yma. (**lle**)
5. Ar ôl y _____, aeth pawb adref. (**darlith**)
6. Mae'r _____ ar y _____. (**llyfr, desg**)
7. Yn ystod y _____, cododd sawl cwestiwn. (**trafodaeth**)
8. Mae e'n egluro'r _____ yn glir. (**gwaith**)
9. Trafodon nhw'r _____ yn y _____. (**methodoleg, cynllun gwers**)
10. Roedd y _____ yn addas iawn i'r plant. (**gweithgaredd**)

Sut ydyn ni'n gwybod ydy enwau'n fenywaidd neu'n wrywaidd?

Mae modd gwirio yn y geiriadur neu mae cliwiau ar gael...



Mae'r terfyniadau hyn fel arfer yn wrywaidd.

-awd (traethawd)

-aint (maint)

-tid/did (ieuenctid)

-rwydd (distawrwydd)

-adur (cyfrifiadur)

-wr (chwaraewr)

-edd (gweithgaredd)

-yn (offeryn)

-iad (mynediad)

-deb (undeb)

Mae'r terfyniadau hyn fel arfer yn fenywaidd.

- aeth (barddoniaeth)
- fa (campfa)
- en (seren)
- ach (cyfrinach)
- as (cymwynas)
- es (ysgrifenyddes)
- ell (llinell)
- eb (anfoneb)
- eg (maneg)

Gwrywaidd neu fenywaidd?

1. Traethawd
2. Derbynfa
3. Hapusrwydd
4. Plentyn
5. Mefusen
6. Camlas
7. Cytundeb
8. Cyfrifadur

Ymarfer y cysyniad o enwau
gyda Blwyddyn 1: enghraifft.



Enwau

Person



Peth



Lle



Anifail



Munud i feddwl

Trafodwch syniadau ar
gyfer gweithgareddau.









Cofiwch!

Modelu > Gwranddo / Siarad > Darllen > Ysgrifennu


Eich tro chi! Meddylwch am thema.

Dechrau				
				Diwedd

Llyfrau defnyddiol i'r dosbarth cynradd...




Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Esboniad o'r gair.



Defnyddio geiriadur yn y dosbarth




cadair hon *enw* (**cadeiriau**) sedd i un
person **CHAIR**

Esboniad.

Cyfieithiad.

Lluosog.

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Lluosog.

cadair hon *eb* (cadeiriau)

1 sedd â chefn a phedair coes ar gyfer un person; stôl
CHAIR

2 (mewn enwau lleoedd) mynydd ar ffurf cadair, neu le cadarn neu gaer, e.e. *Cadair Idris*, *Pencadair* (sef Pencader)

3 pwrs, piw buwch neu ddafad neu afr UDDER

4 gwobr eisteddfodol i feirdd neu lenorion; yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhoddir y gadair i un o brifeirdd yr ŵyl, y bardd sy'n ennill cystadleuaeth yr awdl CHAIR


5 swydd athro mewn prifysgol CHAIR (cadeiriol)

cadair esmwyth cadair fawr gyfforddus EASY CHAIR

Ystyron
gwahanol.

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth

Lluosog.



bwrdd *eg* (byrddau)

1 dodrefnyn â thop gwastad ar goes neu goesau y gellir eistedd wrtho i fwyta, gweithio, chwarae, etc.; bord table

2 (*yn derbyn ffurf unigol neu luosog berf*) grŵp swyddogol o bobl sy'n arfer cynnal eu cyfarfodydd o gwmpas bwrdd; corff, pwyllgor board

3 llawr llong; dec deck

4 astell, planc, ystyllen plank

5 darn o ddefnydd ag wyneb gwastad at ddefnydd arbennig, *bwrdd hysbysebion*, *bwrdd sglefrio* board

bwrdd bysedd *eg* (byrddau bysedd CERDDORIAETH y gwddf hir ar offeryn llinynnol (megis feiolin, gitâr, etc.) y mae tannau'n cael eu gwasgu yn ei erbyn â'r bysedd er mwyn amrywio'r nodau; brân fingerboard

Ystyron gwahanol.

Adnoddau defnyddiol: Geiriadur ar-lein



the Welsh-English Dictionary

Articles

laith

WelshEnglish

▲

llyfndeg

llyfnder

llyfndew

llyfndra

llyfngrown

llyfnhau

llyfnion

llyfnochr

llyfnochrau

llyfnu

llyfr

llyfrau

Details

See more in the Thesaurus

Phrases (13)

llyfr  (hwn) *noun masculine* (llyfrau)

1 casgliad o ddalennau wedi'u rhwymo ynghyd y tu mewn i gloriau, i'w darllen neu i ysgrifennu arnynt **book**¹

2 un o brif raniadau gwaith mawr ysgrifenedig, e.e. y Beibl neu gerdd hir (iawn) **book**¹

3 unrhyw beth wedi'i gasglu ynghyd ar ffurf llyfr, *llyfr stampiau*; cyfrol, copi **book**¹

Adnoddau defnyddiol: Terminoleg byd addysg

Y Termiadur Addysg

[cartref](#) [chwilio am derm](#) [pori a-z](#) [adnoddau](#) [gwybodaeth](#) [ENGLISH](#)

Croeso

i wefan Y Termiadur Addysg.

Hon yw'r wefan a noddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu termau safonol yn y byd addysg.

Rhain yw'r termau i'w defnyddio mewn arholiadau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac mewn adnoddau o bob math ar gyfer athrawon a disgyblion.

CHWILIO

lloeren
satellite

- Recycling symbol
- Compass and ruler
- Speaker
- Open book
- Computer monitor
- Apple
- Atom symbol
- Chemistry flask on a stand
- Lightbulb
- Truck

Da iawn, bawb.

Daliwch ati!

